Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Senedd TV

29 Ionawr 2016

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Ionawr 2016, pan wnaethoch ofyn:

> *A fyddech cystal â darparu ffigurau gwylio a chostau rhedeg Senedd TV ar gyfer pob blwyddyn ariannol o'r Pedwerydd Cynulliad (ers mis Mai 2011).*

Mae ffigurau gwylio Senedd TV fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Defnyddwyr** | **Golwg ar dudalen** |
|---|---|---|
| Mai 2011 - Mawrth 2012 | 13,304 | 175,152 |
| Ebrill 2012 – Mawrth 2013 | 5,421 | 87,443 |
| Mai 2013 - Mawrth 2014 | 4,472 | 61,176 |
| Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | 17,026 | 142,897 |
| Ebrill 2015 - Presennol | 28,556 | 208,901 |

Noder fod y ffigurau yn cynnwys canlyniadau Cymraeg a Saesneg wedi'u cyfuno ac maent yn gyfredol o 6 Ionawr 2016.

**Defnyddwyr** - yw nifer yr ymwelwyr unigol sy'n ymweld â'r wefan ac yn symud ymlaen i bori. Mae'n cyfrif pob defnyddiwr, waeth faint o weithiau y bydd yr un defnyddiwr yn ymweld â'r safle.

**Golwg ar dudalen** - yw nifer y tudalennau sydd wedi cael eu gweld. Ar gyfartaledd, bydd ymwelydd yn edrych ar tua 2.5 o dudalennau. Caiff pob tudalen unigol y mae ymwelydd yn edrych arni ei holrhain fel golwg ar dudalen.

Mae cyfanswm y costau rhedeg ar gyfer pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Cyfanswm costau rhedeg** |
|---|---|
| 2011 - 12 | £29,052 |
| 2012 - 13 | £29,412 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6565
E-bost/Email: E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| | |
|---|---|
| 2013 - 14 | £29,779 |
| 2014 - 15 | £40,681* |
| 2015 - 16 | £41,616 |

(* lansiwyd safle newydd)

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF